# Cyfweliad gyda Gethin Griffiths o Flwyddyn 13
# Ennillydd Cadair y Llenor Hŷn
# Eisteddfod Ysgol Brynrefail 2011

Ar ddiwedd mis Hydref fe gynhaliwyd yr Eisteddfod Ysgol flynyddol a oedd unwaith eto yn lwyddiant mawr. Fel pob blwyddyn roedd Seremoni'r Gadeirio yn un o uchafbwyntiau y noson ac yn fwyfyth y flwyddyn yma oherwydd y twist annisgwyl. Cawn wybod mwy gan ennillydd Cadair y Llenor Hŷn, Gethin Griffiths:

Yn gyntaf, Geth, llongyfarchiadau ar dy lwyddiant! Ers faint oeddet yn gwybod dy fod wedi ennill?
**Geth:** Cefais wybod ar y dydd mawrth, sef dau ddiwrnod cyn yr Eisteddfod.

Beth oedd teitl dy stori? A wnei di rannu ychydig o'i chefndir gyda ni?
**G:** Allan o'r tri theitl posib, ysgrifennais fy stori i o dan y testyn 'Wyneb yn Wyneb'. Mae'r stori yn amgylchynu dynes gyffredin sydd, yn ystod y stori, yn cyfarfod angel a'r diafol. Yn syml, mae hi'n stori drosiadol am sut mae dynoliaeth yn cael eu dal rhwng y da a'r drwg.

Sioc fawr oedd hi i weld y Gadair yn cael ei gorchuddio gyda'r clogyn werdd. Tebyg i 'Gadair Ddu' Hedd Wyn. Pam nad oeddent yn medru bod yno ar y noson?
**G**: Wel, roeddwn braidd yn bell I ffwrdd! Roedden wedi cael y cyfle I fynd ar daith I Batagonia yn Ne America. Roedd 20 ohonym I gyd, yn cynnwys disgyblion o bob rhan o Gymru. Roedd y daith wedi ei threfnu gan yr Urdd.

Beth oedd nod y daith yma, felly?
**G**: Y brif nod oedd I hybu'r iaith Gymraeg ym Mhatagonia gan helpu cymunedau ac ysgolion lleol.

Sut brofiad gefais ti?
**G**: Fe gefais brofiad anghygoel yno. Yn ystod ein amser rhydd cawsom fynd am ddiwrnod I Buenos Aires a oedd yn ffantastig ac yn werth I'w weld ac hefyd, ar ddiwrnod arall gwelsom 'penguins' a morfilod. Gwych!

A wnaethoch gyfarfod unrhyw ffrindiau newydd yno? Wyt yn bwriadu mynd yn ôl?
**G:** Do wir, fe wnaethom gyfarfod a llawer o bobl anghygoel a mi fyddem yn siwr o gadw mewn cysylltiad. Hefyd rydw i, yn ogystal a'r gweddill, yn awyddus iawn i gael mynd yn ol i ymweld gyda nhw yn ogystal a gweld sut mae'r iaith yn dod yn ei blaen,

A oedd yr iaith Gymraeg yn fyw yno?
**G:** Yr henoed a'r plant ieuengaf oedd y rhai oedd yn siarad y rhanfwyaf o Gymraeg gan fod y mwyafrif o'r boblogaeth yn siarad Spaeneg, sef ei iaith gyntaf. Roeddwn yn filch o ymweld gyda Ysgol gynradd a oedd yn gwbl Gymareg. Rwy'n teimlo ein bod wedi cyflawni llawer ar ein hymweliad ac wedi helpu i hybu'r iaith a'i chadw yn fyw.

## Interview with Gethin Griffiths, Year 13
## Winner of the Eisteddfod Chair
## Brynrefail School Eisteddfod 2011

At the end of October the annual school Eisteddfod was held and, once again, it was a great success. As with every year the prizing ceremony, where two pupils are presented the writing awards for the best literary piece submitted, was the highlight of the evening, but it was of even greater importance this year due to an unexpected twist. Gethin Griffiths of Year 13, the winner of the Eisteddfod Chair tells us more:

Firstly, Geth, congratulations on your achievement! Since when did you know that you'd won?
**Geth:** I was told on the Tuesday, two days before the Eisteddfod was held. It was quite a surprise.

What was the title of your story? And will you share any of its background with us?
**G:** Out of the three possible titles, I chose to write under the title 'Face to Face' (Wyneb yn Wyneb). The story revolves around an average woman who, during the story, meets an angel and the devil. It's a metaphorical story about how the human race get caught between what is right and what is wrong.

It was a great shock to see the Chair being covered with the green cloak, which symbolized your Eisteddfod house, Elidir. It wasn't unlike that of Hedd Wyn's 'Black Chair' although under much happier circumstances! Why couldn't you be there on the night?
**G**: Well, I was a bit too far away to attend! I had the chance to go on a journey to Patagonia in South America. There were 20 of us in all, including students from all parts of Wales. It had been organized by the Urdd.

What was the aim of the trip?
**G**: Our main aim was to promote the Welsh language in Patagonia and to help the local schools and communities.

What kind of experience did you have?
**G**: It was an amazing experience and during our free time we spent a day in Buenos Aires and on another we saw some penguins and whales. Brilliant!

Did you meet any new friends there? Do you have any plans to return there
**G:** Yeah, we met a lot of amazing people and we will be sure to keep in touch with them. Also, as well as the rest of the crew, I am very eager to go back there and visit them as well as to see how the language is coming on.

Was the Welsh language still alive there?
**G:** The elderly and the youngest were the ones who spoke the most Welsh as most of the population spoke Spanish, their first language. It was great to visit a primary school which operated completely in Welsh. I feel as if we achieved a lot on our visit and have helped promote and boost the language.